Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Gwener, 20 Tachwedd 2020 am 10.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | J P Curtice | J W Jones |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Rachel Brooks | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Pamela Cole | Uwch-arweinydd ADY |
| Melisa Perry | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant |
| Cath Swain | Rheolwr Trafnidiaeth Integredig |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J A Hale a/ac H M Morris

---

## 23 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol gan aelodau.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 24 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau canlynol ar yr agenda.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 25 Apêl Cludiant i'r Ysgol.

Clywodd y Pwyllgor apêl gan rieni'r disgybl a amlinellir yn yr adroddiad.

Cyflwynwyd yr apêl yn erbyn penderfyniad yr adran mewn perthynas â'r hawl am gludiant am ddim o'i gyfeiriad cartref i Ysgol Gyfun Tre-gŵyr.

Cyflwynodd rhieni'r disgybl sylwadau llafar i'r Pwyllgor i gefnogi'u cyflwyniadau ysgrifenedig gan amlinellu amgylchiadau penodol eu hapêl a oedd yn ymwneud ag anabledd ac anghenion addysgol arbennig y plentyn a'i amgylchiadau teuluol.

Amlinellwyd yn arbennig broblemau difrifol oherwydd pandemig COVID-19 o ran cysylltu â swyddogion yn yr adran Addysg a hefyd gael yr ohebiaeth ysgrifenedig gywir sy'n ymwneud â'r disgybl.

Gwnaeth swyddogion yr adrannau Addysg a Chludiant sylwadau llafar hefyd i gefnogi'u cyflwyniadau ysgrifenedig.

Amlinellwyd i'r pwyllgor y math o gludiant am ddim y mae'r awdurdod yn ei ddarparu'n gyffredinol i ddisgyblion ysgolion uwchradd a'i brif wahaniaethau i ddarpariaeth cludiant i ysgolion cynradd gan y swyddog cludiant, a rhoddodd y manylion iddynt hefyd.

Gofynnodd aelodau'r pwyllgor gyfres o gwestiynau i'r apelwyr a'r swyddogion a ymatebodd yn unol â hynny.

Nodwyd Darpariaeth Statudol ac Arweiniad Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr Llywodraeth Cymru a Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Dinas a Sir Abertawe yn yr atodiad i'r adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor yr holl gyflwyniadau llafar ac ysgrifenedig yn llawn.

**Penderfynwyd**

1) caniatáu'r apêl ar ran y disgybl a amlinellwyd yn yr adroddiad, oherwydd yr hyn yr oedd y pwyllgor yn ei ystyried yn amgylchiadau eithriadol, ac y dylai'r disgybl gael cludiant am ddim i Ysgol Tre-gŵyr.
2) y bydd y cynrychiolydd cyfreithiol yn gwneud argymhellion i'r Gyfarwyddiaeth Addysg ar ran y pwyllgor ynghylch y materion a godwyd yn ystod yr apêl hon a'r apêl flaenorol.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.24 pm

**Cadeirydd**